GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

**Hydref 2025 Canfyddiadau Arolwg Panel:**

Ffynonellau gwybodaeth iechyd, polisi iechyd, iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd, rhagfarn oed, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyhoeddwyd: Chwefror 2026

# Cefndir



- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cenedlaethol o drigolion Cymru sy’n 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi ymgysylltiad rheolaidd â’r cyhoedd i lywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwyd y panel i gynrychioli poblogaeth Cymru yn gyffredinol yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu recriwtio i'r panel gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yna'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i roi cipolwg ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Hydref 2025 sy’n cwmpasu:
    - **Ffynonellau gwybodaeth iechyd**
    - **Polisi iechyd**
    - **Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd**
    - **Rhagfarn oed**
    - **Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o’u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.



# Trosolwg methodolegol

- Ymgymerwyd â recriwtio cychwynnol i banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Tachwedd 2022 at Ionawr 2023) dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae recriwtio yn broses barhaus a gall unigolion gofrestru drwy wefan Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (yn agor mewn ffenestr newydd) ar unrhyw adeg. Yn seiliedig ar sgrinio demograffig cychwynnol, caiff unigolion naill ai eu recriwtio'n uniongyrchol i'r panel neu eu gwahodd i ymuno â rhestr aros os yw'r cwota ar gyfer eu proffil demograffig yn llawn.
- Wrth gyflwyno pob arolwg, bydd recriwtio ychwanegol wedi'i dargedu yn digwydd drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cynrychioldeb sampl yn ôl yr angen.
- O fis Ebrill 2025, gwahoddir aelodau'r panel i gwblhau arolwg bob pedwar mis, naill ai ar-lein neu dros y ffôn.
- Casglwyd y data ar gyfer yr arolwg hwn 2 Hydref hyd at 4 Tachwedd 2025.
- Ni chynhigir unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer cyfranogiad.
- Oherwydd bod y panel wedi'i ddewis yn rhannol ei hun ac yn canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd, gallai'r sampl gael ei effeithio gan duedd tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn pynciau iechyd cyhoeddus a materion gofal iechyd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- Ceir rhagor o wybodaeth am ddulliau'r arolwg yn yr Atodiad.

- Ceir dadansoddiad demograffig o aelodau'r panel a gafodd eu gwahodd i gwblhau'r arolwg a'r 1,418 gymerodd ran, ac a gwblhaodd yr arolwg ym mis Hydref 2025 yn yr Atodiad.
- Oni nodir yn wahanol, mae data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.
- Sylwer: efallai na fydd y canrannau yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

- Cymerodd 1,418 o bobl ran yn arolwg mis Hydref 2025 (2 Hydref hyd at 4 Tachwedd 2025).

## Ffynonellau gwybodaeth iechyd

- Dywedodd 76% o bobl eu bod wedi chwilio am wybodaeth i'w helpu i aros yn iach ac i'w hatal rhag mynd yn sâl yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Y tri lle mwyaf poblogaidd y chwiliodd y bobl hyn am wybodaeth o'r fath oedd:
  - Chwilio ar y rhyngrwyd (95%)
  - Gwefan y GIG (91%)
  - Gweithwyr iechyd cymunedol proffesiynol (79%)

## Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd

- Mae 58% o bobl yn credu y dylai menywod gael apwyntiad pwrpasol wedi'i drefnu gan y GIG i drafod eu hiechyd a'u llesiant ar ôl beichiogrwydd, yn hytrach na'i gael fel rhan o apwyntiadau rheolaidd eraill ar ôl beichiogrwydd, neu ddim o gwbl.
- Mae 83% o bobl yn credu y byddai'n briodol i weithiwr gofal iechyd proffesiynol ofyn i fenyw am faterion iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig ag ar ôl beichiogrwydd yn ystod apwyntiad a drefnwyd at ddiben gwahanol.

## Polisi iechyd

- Dywedodd 75% o bobl eu bod yn credu ei bod yn 'bwysig iawn' bod pob polisi Llywodraeth Cymru yn ystyried iechyd a llesiant babanod a phlant.
- Dywedodd 75% o bobl eu bod yn credu ei bod yn 'bwysig iawn' bod polisi'n sicrhau bod cartrefi sy'n cael eu rhentu gan landlordiaid preifat yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel.
- Dywedodd 64% o bobl eu bod yn credu ei bod yn 'bwysig iawn' bod y llywodraeth yn buddsoddi arian i sicrhau y gall pobl gael mynediad at wasanaethau cymorth sy'n ystyried cyflogaeth, cyllid ac iechyd gyda'i gilydd, i helpu pobl i aros yn iach ac yn y gwaith, neu wella a dychwelyd i'r gwaith ar ôl salwch.
- Dywedodd 46% o bobl eu bod yn credu ei bod yn 'bwysig iawn' bod y llywodraeth yn symud cyfran o'r gyllideb iechyd bresennol o drin iechyd gwael i'w atal.

## Rhagfarn oed

- Gan ddefnyddio graddfa rhagfarn oed 15 eitem Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) i ddeall profiadau pobl o ragfarn oedran (dros bob oedran cyfranogwyr), y sgôr gyfartalog (cymedr cyfansawdd) oedd 2.11 (1=isaf i 5=uchaf).
- Adroddwyd am y profiad o ragfarn oed fwyaf gan bobl 16 i 29 oed (sgôr gymedrig 2.26) ac yna'r rhai 70 oed a hŷn (2.16). Canfuwyd bod perthynas siâp U yn ôl oedran yn bodoli.
- Dywedodd 43% o bobl nad oedd polisïau a wnaed gan y llywodraeth yn diwallu anghenion pobl o'u hoedran.

## Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Er mwyn cynorthwyo Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella ansawdd, mae 61% o bobl yn credu y dylid cyhoeddi themâu cwynion a dderbynnir o leiaf bob chwarter, ac mae 59% yn credu y dylid cyhoeddi canmoliaeth o leiaf bob chwarter.


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Ffynonellau gwybodaeth iechyd

Ceisiodd yr adran hon ddeall ble mae pobl yng Nghymru yn chwilio am wybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd i'w helpu i aros yn iach a'u hatal rhag mynd yn sâl.

# Ffynonellau gwybodaeth iechyd

## Yn y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi chwilio am wybodaeth i'ch helpu chi i gadw'n iach a'ch atal rhag mynd yn sâl?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Ffynonellau gwybodaeth iechyd

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi chwilio am wybodaeth iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf (n = 1,087; heb ei bwysoli)

**Pa mor aml yn y 12 mis diwethaf yr ydych chi wedi chwilio am wybodaeth gan y ffynonellau canlynol i'ch helpu chi i gadw'n iach a'ch atal rhag mynd yn sâl?**

| | Ddim o gwbl | Weithiau | Yn aml |
|---|---|---|---|
| Chwiliad ar y rhyngrwyd | 5% | 44% | 51% |
| Gwefan y GIG | 8% | 54% | 37% |
| Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn fy meddygfa | 23% | 60% | 17% |
| Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cymunedol eraill (e.e. fferyllwyr, deintyddion, optometryddion) | 21% | 64% | 15% |
| Teulu, ffrindiau a chyd-weithwyr | 26% | 59% | 14% |
| Sefydliadau cymunedol a gwirfoddol (e.e. y Brisith Heart Foundation, Diabetes UK) | 41% | 46% | 13% |
| Y cyfryngau cymdeithasol | 51% | 38% | 11% |
| Apiau iechyd | 51% | 37% | 11% |
| Podlediad/llyfr llafar/gweminar | 73% | 19% | 8% |
| Newyddion wedi'i argraffu | 61% | 33% | 5% |
| Radio | 80% | 17% | 3% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 1%


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Polisi iechyd

Ceisiodd yr adran hon ddeall barn pobl ar ba gamau polisi y gallai'r llywodraeth eu cymryd i wella iechyd pobl Cymru.

# Polisi iechyd


**Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydy hi, os o gwbl, fod pob polisi llywodraeth yng Nghymru (e.e. tai, trafnidiaeth, amaethyddiaeth) yn ystyried iechyd a llesiant babanod a phlant?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Polisi iechyd

**Cynigir gwasanaeth ymwelwyr iechyd a chymorth i deuluoedd atodol i bob teulu sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yng Nghymru. Sut y dylai'r cymorth ychwanegol hwn i deuluoedd gael ei gynnig?**




Gwell gennyf beidio â dweud: Yn llai na 1%

# Polisi iechyd

**Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydy hi, os o gwbl, fod y llywodraeth yn cyflawni'r camau polisi cysylltiedig ag iechyd canlynol yng Nghymru?**

| | Ddim yn bwysig o gwbl | Gweddol bwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod tai a rentir gan landlordiaid preifat yn cael eu cynnal i safon uchel | 3% | 21% | 75% |
| Cyfyngu ar hyrwyddo prisiau yn achos bwyd nad yw'n iach (e.e. prynu un a chael un arall am ddim, prydau bargen) | 31% | 35% | 33% |
| Symud cyfran o'r gyllideb iechyd gyfredol oddi wrth drin pobl sy'n wael eu hiechyd i atal pobl rhag mynd yn sâl | 7% | 44% | 46% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 2%

# Polisi iechyd

## Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydy hi, os o gwbl, fod y llywodraeth <strong>yn buddsoddi arian i gyflawni'r camau polisi cysylltiedig ag iechyd canlynol yng Nghymru?

| | Ddim yn bwysig o gwbl | Gweddol bwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|
| Cynyddu nifer y tai cymdeithasol uchel eu safon, fforddiadwy a sefydlog sydd ar gael i'w rhentu | 3% | 23% | 73% |
| Sicrhau y gall pobl gael mynediad at wasanaeth cymorth sy'n rhoi ystyriaeth ar y cyd i gyflogaeth, cyllid ac iechyd, ac sy'n eu helpu i gadw'n iach a bod yn y gwaith, neu i wella a dychwelyd i'r gwaith ar ôl salwch | 3% | 33% | 64% |
| Sicrhau bod gweithleoedd a ariennir yn gyhoeddus (e.e. ysgolion, y GIG, cynghorau) yn gweithredu i wella iechyd a llesiant ariannol eu staff | 7% | 35% | 57% |
| Darparu arweiniad a chymorth i gyflogwyr (cyhoeddus a phreifat) fel y gallant helpu eu gweithwyr i gadw'n iach a bod yn y gwaith, ac i wella a dychwelyd i'r gwaith ar ôl salwch | 6% | 41% | 52% |
| Amddiffyn cymunedau rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (e.e. llifogydd, tymereddau cynyddol) | 12% | 38% | 50% |
| Darparu cymorth ychwanegol i bobl sy'n fwy bregus yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (e.e. y rhai ar incwm is, â llai o gysylltiadau cymunedol) | 13% | 40% | 46% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd

Ceisiodd yr adran hon archwilio'r ffordd orau o gefnogi iechyd a llesiant menywod yn y flwyddyn gyntaf ar ôl beichiogrwydd, boed hyn yn dilyn genedigaeth, gamesgoriad neu ganlyniadau beichiogrwydd eraill.

# Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd

**Faint o rôl, os o gwbl, ydych chi'n credu a ddylai fod gan y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol canlynol o ran darparu cymorth i fenywod gyda'u hiechyd a'u llesiant yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn beichiogrwydd?**

| | Ddim yn gwybod | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|---|
| Bydwragedd | 7% | 3% | 21% | 68% |
| Ymwelwyr iechyd | 6% | 1% | 11% | 80% |
| Meddygon teulu | 5% | 1% | 25% | 66% |
| Nyrsys yn y feddygfa | 6% | 1% | 23% | 69% |
| Fferyllwyr cymunedol | 9% | 3% | 48% | 38% |
| Deintyddion | 10% | 9% | 47% | 32% |
| Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (e.e. ffisiotherapyddion, deietegwyr) | 10% | 4% | 44% | 40% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 2%


# Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd

## Pryd, os o gwbl, ydych chi'n credu byddai'r adeg orau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gael sgwrs gyffredinol â menywod am iechyd a llesiant yn dilyn beichiogrwydd?

| | |
|---|---|
| Yn ystod apwyntiad penodol a drefnir gan y GIG i drafod iechyd a llesiant y fenyw | 58% |
| Yn ystod apwyntiadau arferol sy'n canolbwyntio ar y plentyn (e.e. brechiadau) | 21% |
| Yn ystod apwyntiad a wneir gan y fenyw ar gyfer mater penodol yr hoffai hi ei drafod | 14% |
| Dydw i ddim yn meddwl y dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gael sgyrsiau â menywod am eu iechyd a'u llesiant yn dilyn beichiogrwydd | 1% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 6% |


# Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd

**Os bydd menyw'n mynd i apwyntiad gofal iechyd yn dilyn beichiogrwydd, a hwnnw heb fod yn ymwneud â'r beichiogrwydd (e.e. ar gyfer asthma), ydych chi'n credu ei bod yn briodol neu'n amhriodol i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ofyn am faterion iechyd a llesiant eraill sy'n berthnasol i'r cyfnod yn dilyn y beichiogrwydd?**



# Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd

**Pe byddai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael sgyrsiau â menywod am eu hiechyd a'u llesiant yn dilyn beichiogrwydd, sut ydych chi'n credu y dylai'r sgyrsiau hyn gael eu cynnal?**



# Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd


## Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydy hi, os o gwbl, fod y pynciau canlynol yn cael eu trafod â menyw yn ystod y flwyddyn yn dilyn beichiogrwydd?

| | Ddim yn gwybod | Ddim yn bwysig o gwbl | Gweddol bwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd meddwl a llesiant (e.e. newidiadau mewn hwyliau) | 4% | 1% | 13% | 79% |
| Iechyd corfforol (e.e. poen cefn) | 4% | 1% | 23% | 69% |
| Ymddygiadau iach (e.e. gweithgarwch corfforol, deiet) | 4% | 3% | 34% | 56% |
| Llesiant cymdeithasol (e.e. perthnasoedd) | 5% | 5% | 32% | 54% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 3%

# Iechyd a lles ar ôl beichiogrwydd

## Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydy hi, os o gwbl, fod menywod yn cael cymorth ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dilyn beichiogrwydd?




Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Rhagfarn oed

Ceisiodd yr adran hon ddeall profiadau pobl o ragfarn oed gan ddefnyddio Graddfa Rhagfarn Oed newydd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) (Graddfa Rhagfarn Oed WHO). Mae WHO yn diffinio rhagfarn oed fel stereoteipiau (sut rydym yn meddwl), rhagfarn (sut rydym yn teimlo), a gwahaniaethu (sut rydym yn ymddwyn) yn seiliedig ar oedran. Gofynnwyd i bobl ymateb i'r 15 eitem yn y Raddfa gan ddefnyddio graddfa 5 pwynt Likert (cytuno'n gryf hyd at anghytuno'n gryf).

Mae'r adran yn cyflwyno ymatebion i bob un o'r 15 eitem. Yna mae'n cyflwyno'r sgôr gymedrig cyfansawdd ar gyfer pob eitem ac ar gyfer saith math o is-thema rhagfarn oed. Yn unol â chanllawiau WHO, wrth gyfrifo sgoriau cymedrig cyfansawdd, cafodd ymatebion ‘ddim yn gwybod’/’ddim yn berthnasol’ a ‘dewis peidio â dweud’ eu trin fel rhai coll. Roedd yn ofynnol i ymatebwyr fod wedi ateb o leiaf wyth allan o 15 eitem i gael eu cynnwys yn y dadansoddiadau sgôr cymedrig (cafodd 10 o bobl eu heithrio).

Cyfeirnod ar gyfer Graddfa Rhagfarn Oed WHO: Llawlyfr a Chanllaw i  Ddefnyddiwr. Genefa, y Swistir: Sefydliad Iechyd y Byd; 2025. Trwydded CC BY-NC-SA 3.0 IGO

# Rhagfarn oed

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

| Math o ragfarn oed | Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hunan-stereoteipiau | Yn fy oedran i, mae gen i lawer o bwrpas yn fy mywyd | 28% | 42% | 15% | 9% | 3% | 1% |
| | Rydw i'n faich oherwydd fy oedran | 1% | 5% | 9% | 42% | 39% | 2% |
| Hunan-ragfarn | Rydw i'n teimlo cywilydd oherwydd fy oedran | 1% | 4% | 7% | 42% | 44% | 1% |
| Hunan-wahaniaethu | Oherwydd fy oedran, rydw i'n dal yn ôl rhag cyfrannu at drafodaethau hyd yn oed pan maen nhw'n ymwneud â phethau sy'n effeithio arna i | 1% | 7% | 9% | 41% | 41% | 1% |
| | Mae yna bethau y byddwn i'n hoffi eu gwneud os nad oeddwn i'n teimlo eu bod nhw'namhriodol i bobl fy oedran i | 3% | 13% | 13% | 39% | 30% | 3% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 1%

# Rhagfarn oed

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

| Math o ragfarn oed | Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Stereoteipiau rhyngbersonol | Mae pobl eraill yn meddwl nad oes gen i ddim byd gwerthfawr i'w gyfrannu at gymdeithas oherwydd fy oedran | 2% | 10% | 10% | 39% | 34% | 5% |
| | Mae pobl eraill yn meddwl 'mod i'n gallu gwneud penderfyniadau dros fy hun yn fy oedran | 36% | 43% | 5% | 8% | 6% | 2% |
| Rhagfarn ryngbersonol | Mae pobl eraill yn teimlo'n rhwystredig gyda fi oherwydd fy oedran | 1% | 7% | 10% | 41% | 35% | 5% |
| | Mae pobl eraill yn teimlo'n anghyfforddus yn fy nghwmni oherwydd fy oedran | 1% | 3% | 7% | 45% | 39% | 5% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 1%

# Rhagfarn oed


## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

| Math o ragfarn oed | Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwahaniaethu rhyngbersonol | Oherwydd fy oedran, mae pobl eraill yn meddwl bod angen symleiddio pethau wrth siarad â mi | 1% | 8% | 9% | 40% | 40% | 2% |
| | Mae pobl eraill yn gwneud penderfyniadau ar fy rhan i oherwydd fy oedran | 1% | 6% | 5% | 40% | 45% | 1% |
| | Oherwydd fy oedran, mae pobl yn gwneud i mi deimlo fy mod i wedi fy nghau allan | 1% | 7% | 8% | 41% | 40% | 2% |
| Gwahaniaethu sefydliadol | Dydy'r polisïau a wneir gan y llywodraeth (e.e. ar dai, nawdd cymdeithasol, gofal iechyd) ddim yn diwallu anghenion pobl fy oedran i | 15% | 28% | 21% | 17% | 8% | 10% |
| | Mae pobl fy oedran i'n cael eu portreadu'n bositif yn y cyfryngau | 2% | 16% | 35% | 29% | 11% | 7% |
| | Mae cyfle roeddwn i'n gymwys amdano (e.e. swydd neu gyfle gwirfoddoli) wedi'i wrthod i mi oherwydd fy oedran | 2% | 8% | 8% | 33% | 22% | 26% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 1%

# Rhagfarn oed

Cyfrifwyd y sgoriau cyfansawdd cymedrig drwy gyfuno ymatebion i eitemau unigol a rhannu'r rhain â nifer yr eitemau a atebwyd gan bob cyfranogwr (amrediad 1-5) ar gyfer y sampl wedi'i bwysoli ac yn ôl grŵp oedran.



# Rhagfarn oed

Mae'r raddfa rhagfarn oed wedi'i llunio o saith is-thema. Cyfrifwyd sgoriau cyfansawdd cymedrig ar gyfer pob is-thema ar gyfer y sampl wedi'i bwysoli ac yn ôl grŵp oedran.

| | Sampl llawn | 16-29 oed | 30-49 oed | 50-69 oed | 70 oed neu'n hŷn |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwahaniaethu sefydliadol | 3.00 | 3.07 | 2.67 | 3.02 | 3.28 |
| Stereoteipiau rhyngbersonol | 2.03 | 2.24 | 1.85 | 2.01 | 2.08 |
| Hunan-wahaniaethu | 2.02 | 2.28 | 1.93 | 1.99 | 1.92 |
| Hunan-stereoteipiau | 2.00 | 1.97 | 1.95 | 2.10 | 1.95 |
| Rhagfarn ryngbersonol | 1.85 | 1.91 | 1.72 | 1.84 | 1.98 |
| Gwahaniaethu rhyngbersonol | 1.84 | 2.10 | 1.63 | 1.78 | 1.95 |
| Hunan-ragfarn | 1.73 | 1.68 | 1.77 | 1.79 | 1.64 |


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Ddyletswydd ansawdd

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rwymedigaeth o dan y Ddyletswydd Ansawdd i wella ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu'n barhaus drwy sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth ar gael yn rhwydd ac yn barhaus i'r cyhoedd. I gefnogi'r ddyletswydd hon, ceisiodd yr adran hon ddeall barn y cyhoedd ar adrodd cwynion a chanmoliaeth.

# Ddyletswydd Ansawdd


## Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n credu y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi themâu cwynion a ddaw i'w law?




Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

# Ddyletswydd Ansawdd


**Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n credu y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi'r ganmoliaeth a'r adborth cadarnhaol a ddaw i'w law?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Ddyletswydd Ansawdd

**Mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru adrodd ar y camau y mae'r sefydliad wedi'u cymryd i wella safon y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Ym mha un o'r fformatau canlynol y byddai gennych ddiddordeb mewn gweld adroddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y camau y mae'n eu cymryd?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

# Eisiau bod yn rhan o Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus?

Mae recriwtio i Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

**Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.**

**Ymunwch â'r Grwp**

**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**




**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

# Cyfranwyr at y Prosiect

**Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp, Prof Karen Hughes, Carys Dale, Dr Charlotte Welch

**Y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi mewn Iechyd a Llesiant**

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, WHO CC: Dr Sumina Azam, Dr Louisa Petchey

Y Tîm Cyfathrebu: Aamir Mohammed, Sarah Hibbard, Katie Allen, Rebecca Hopkins, Danny Donovan, Celyn Hunt

Grŵp Cynghori Traws-Sefydliadol: Amy Burgess, Bethan Bowden, Susan Belfourd, Giles Greene, Emily van de Venter, Chris Roberts (Llywodraeth Cymru), Semele Mylona (Llywodraeth Cymru)

**Datblygu'r Holiadur:**

Datblygwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn arolwg mis Hydref 2025 mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg

Dulliau

# Demograffeg

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 3375 | | Hydref 2025 sampl arolwg N = 1418 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 49% | 1983 | 59% | 774 | 55% |
| | Benyw | 51% | 1363 | 40% | 629 | 44% |
| | Arall | - | 29 | <1% | 15 | 1% |
| Oedran (blynyddoedd) | 16 i 29 | 20% | 638 | 20% | 180 | 13% |
| | 30 i 49 | 29% | 1262 | 37% | 335 | 24% |
| | 50 i 69 | 32% | 906 | 27% | 470 | 33% |
| | 70 neu'n hŷn | 19% | 569 | 17% | 433 | 31% |
| Cwintel amddifadedd | 1 (Mwyaf) | 19% | 507 | 15% | 221 | 16% |
| | 2 | 19% | 649 | 19% | 259 | 18% |
| | 3 | 21% | 649 | 19% | 275 | 19% |
| | 4 | 21% | 788 | 23% | 327 | 23% |
| | 5 (Lleiaf) | 20% | 782 | 23% | 336 | 24% |

Noder. Mae niferoedd sampl y panel yn cynrychioli dadansoddiad o'r bobl ar y panel a wahoddwyd i gymryd rhan yn arolwg Hydref 2025. Nodwch. Data poblogaeth o Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Canol 2020) (yn agor mewn ffenestr newydd); Data cwintel amddifadedd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) (yn agor mewn ffenest newydd). Oherwydd diffyg cyfranogiad mewn pedwar arolwg yn olynol, mae 415 o bobl wedi cael eu tynnu oddi ar y panel. Amlinellwyd y broses hon i aelodau'r panel yn y deunydd ymuno.

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 3375 | | Hydref 2025 sampl arolwg N = 1418 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Gwyn | 95% | 3249 | 96% | 1363 | 96% |
| | Ethnigrwydd cymysg | 1% | 49 | 15% | 7 | 0% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 2% | 10 | <1% | 6 | 0% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | 1% | 51 | <1% | 29 | 2% |
| | Ethnigrwydd arall | 1% | 9 | <1% | 8 | 1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | - | 7 | <1% | 5 | 0% |
| Bwrdd Iechyd | BIP Aneurin Bevan | 19% | 620 | 18% | 221 | 16% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | 22% | 595 | 18% | 310 | 22% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | 16% | 650 | 19% | 255 | 18% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | 14% | 520 | 15% | 201 | 14% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 12% | 476 | 14% | 209 | 15% |
| | BI Addysgu Powys | 4% | 132 | 3% | 62 | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | 12% | 382 | 11% | 160 | 11% |

Nodwch. Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ethnigrwydd (yn agor mewn ffenest newydd) a gafwyd gan Stats Cymru ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn wyn. Amcangyfrifon poblogaeth gan fyrddau iechyd lleol (yn agor mewn ffenest newydd) wedi'u casglu o Stats Cymru. BIP: Bwrdd Iechyd Prifysgol; BI: Bwrdd Iechyd..

# Dulliau - Recriwtio Cychwynnol

- Gosodwyd targed cychwynnol o 2,500 aelod panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 ymateb; amcangyfrifwyd y byddai'r cyfraddau ymateb i arolygon bob yn ail fis yn 50% ar y mwyaf. I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'rarolygon misol.
- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:
  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.
- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy'n cymryd rhan.
- Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect (yn agor mewn ffenest newydd).

# Dulliau

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau' holiadur trwy'r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau'r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig sydd ei angen i gyflawni sampl sy'n cynrychioli oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd Cymru, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.
- Mae'r holiaduron yn cynnwys cwestiynau sydd ag un ymateb a sawl ymateb (h.y. dewiswch bob un sy'n berthnasol). Pan fo cwestiwn yn un â sawl ymateb a'i fod yn cynnwys opsiwn un ymateb yn unig sy'n golygu mai dim ond yr opsiwn hwnnw y gellid ei ddewis, caiff hyn ei gydnabod ar y graff neu'r tabl.
- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ar draws sampl yr arolwg, cynhelir tua 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau poblogaeth a dargedir. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau'r arolwg ac fe'u gwahoddir yna i ymuno â'r panel. Felly mae cyfran yn gyfranogwyr sy'n cwblhau arolwg untro. Yn ogystal, rhoddir hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu grwpiau poblogaeth penodol.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr (N = 1,418) a gwblhaodd arolwg mis Hydref 2025 drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Recriwtio | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1119 | 79% |
| Dros y ffôn | 167 | 12% |
| Wyneb yn wyneb (panel) | 87 | 6% |
| Wyneb yn wyneb (untro) | 45 | 3% |

Cwblhaodd y cyfranogwyr (N = 1,418) arolwg mis Hydref 2025 drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1,259 | 89% |
| Dros y ffôn | 58 | 4% |
| Wyneb yn wyneb | 101 | 7% |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

Working together for a healthier Wales